Disgrifiad o Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon

Yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon[1], mae sefydliadau addysg uwch yn gyrff annibynnol, hunanlywodraethol sy'n weithredol mewn addysgu, ymchwil ac ysgoloriaethau. Cânt eu sefydlu gan Siarter Frenhinol neu ddeddfwriaeth, a chaiff y rhan fwyaf eu hariannu yn rhannol gan y llywodraeth.

Caiff addysg uwch (AU) ei darparu gan nifer o fathau gwahanol o sefydliadau. Yn ogystal â phrifysgolion a cholegau prifysgolion, sydd â siarteri a statudau a wneir drwy'r Cyfrin Gyngor sy'n cynghori'r Frenhines ynghylch caniatáu Siarteri Brenhinol ac ymgorffori prifysgolion, mae nifer o sefydliadau a ddynodir yn gyhoeddus ac sy'n annibynnol yn y sector addysg uwch. Mae darpariaeth addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus ar gael mewn rhai colegau addysg uwch gan awdurdod sefydliad arall sy'n meddu ar y grym priodol. Gellir cynnal addysgu er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer dyfarniad cymwysterau addysg uwch mewn unrhyw sefydliad addysg uwch ac mewn rhai colegau addysg bellach.

Pwerau dyfarnu graddau a'r teitl 'prifysgol'

Mae pob prifysgol a nifer o golegau addysg uwch yn meddu ar y pŵer cyfreithiol i ddatblygu eu cyrsiau eu hunain a dyfarnu eu graddau eu hunain, yn ogystal â phenderfynu'r amodau y cânt eu dyfarnu. Mae rhai colegau a sefydliadau arbenigol AU nad oes ganddynt y pwerau hyn yn cynnig rhaglenni, gydag awdurdod datganoledig o raddau amrywiol, sy'n arwain at raddau sefydliad sydd yn eu meddu. Mae pob prifysgol a oedd yn bodoli cyn 2005 yn meddu ar y pŵer i ddyfarnu graddau ar sail cwblhau cyrsiau a addysgir a'r pŵer i ddyfarnu graddau ymchwil. O 2005, mae sefydliadau yng Nghymru a Lloegr sydd ond yn dyfarnu graddau a addysgir ('cylch cyntaf' neu 'ail gylch') ac sy'n bodloni rhai meini prawf rhifiadol, yn meddu ar yr hawl i ddefnyddio'r teitl 'prifysgol'. Gall sefydliadau addysg uwch sydd ond yn dyfarnu graddau a addysgir ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf rhifiadol, wneud cais i ddefnyddio'r teitl 'coleg prifysgol', er nad yw pob un dewis gwneud hynny.

Mae pob un o'r sefydliadau hyn yn ddarostyngedig i'r un sicrwydd ansawdd rheoliadol a gofynion ariannu â phrifysgolion; ac mae pob sefydliad yn penderfynu drostynt eu hunain pa fyfyrwyr i'w derbyn a pha staff i'w penodi.

Yn gyfreithiol, mae graddau a chymwysterau addysg uwch eraill yn eiddo i'r sefydliad dyfarnu, ac nid y wladwriaeth.

Mae enwau'r sefydliadau â'u pwerau dyfarnu graddau eu hunain ("Cyrff Cydnabyddedig") ar gael i'w lawrlwytho yn:
http://www.dcsf.gov.uk/recognisedukdegrees/index.cfm?fuseaction=institutes.list&InstituteCategoryID=1

Mae sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cyrsiau yn arwain at radd Corff Cydnabyddedig yn cael eu rhestru gan awdurdodau Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, ac fe'u hadwaenir fel "Cyrff Rhestredig". Edrychwch y rhestr yn:
http://www.dcsf.gov.uk/recognisedukdegrees/index.cfm?fuseaction=institutes.list&InstituteCategoryID=2

Cymwysterau

Caiff y mathau o gymwysterau a ddyfarnir gan sefydliadau addysg uwch ar lefel isradd ac israddedig (cylch cyntaf) a lefel ôl-raddedig (ail gylch a thrydydd cylch) eu disgrifio yn y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ). Mae hyn hefyd yn cynnwys disgrifyddion cymwysterau a ddatblygwyd yn y sector AU gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA - a sefydlwyd ym 1997 fel corff annibynnol y DU gyfan i fonitro safonau'r ddarpariaeth addysg uwch - www.qaa.ac.uk). Hunanardystiwyd fod FHEQ yn gydnaws â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd, y fframwaith cymwysterau a fabwysiedir fel rhan o'r Broses Bologna, ym mis Chwefror 2009. Cafodd graddau sylfaen, a gynlluniwyd i greu dyfarniadau canolraddol sydd wedi'u cyfeirio'n gryf tuag at gyfleoedd cyflogaeth penodol, eu cyflwyno yn 2001. Yn nhermau'r Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd maent yn gymwysterau "cylch byr" yn y cylch cyntaf. Un gydran yn Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yw FHEQ. Mae'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA), Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) a Chyngor Arholi ac Asesu'r Cwricwlwm, Gogledd Iwerddon (CCEA) wedi sefydlu'r Fframwaith

[1] Mae gan y DU system o lywodraeth ddatganoledig, gan gynnwys ar gyfer addysg uwch i'r Alban, i Gymru ac i Ogledd Iwerddon. Caiff y disgrifiad hwn ei gymeradwyo gan y Fforwm Polisi Lefel Uchel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Adran ar gyfer Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynghorau Cyllido Addysg Uwch ar gyfer Lloegr, yr Alban, a Chymru, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA), Universities UK (UUK), GuildHE, a'r Ganolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol ar gyfer y DU (UK NAIRC).

Cymwysterau a Chredyd (i gymryd lle, dros amser, y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF)). Mae'r awdurdodau hyn yn rheoleiddio nifer o gyrff proffesiynol, statudol a chyrff dyfarnu eraill sy'n rheoli VET a chymwysterau cyffredinol ar bob lefel. Hefyd, mae'r QCF wedi'i ymgorffori yn y FfCChC. Mae cysylltiad agos rhwng lefelau'r FHEQ a'r NQF (a ddangosir drosodd), a fframweithiau eraill y DU ac Iwerddon (gweler 'Gall Cymwysterau groesi Ffiniau' http://www.qaa.ac.uk/standardsandquality/otherrefpoints/Qualsboundaries09.pdf)

Sicrhau Ansawdd

Caiff safonau academaidd eu sefydlu a'u cynnal gan sefydliadau addysg uwch eu hunain drwy ddefnyddio ystod helaeth a soffistigedig o ymagweddau a strwythurau sicrhau ansawdd sy'n cael eu rhannu. Mae safonau ac ansawdd mewn sefydliadau yn cael eu tanategu gan y defnydd cyffredinol o arholwyr allanol, set safonol o ddangosyddion ac adroddiadau eraill, gan weithgareddau'r QAA ac mewn meysydd proffesiynol gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod sefydliadau yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol a ddisgrifir yn y FHEQ: datganiadau meincnodi pwnc, y Cod Ymarfer a manylebau'r rhaglen. Mae QAA yn cynnal archwiliadau ac adolygiadau, sy'n seiliedig ar adolygiadau cymheiriaid, o sefydliadau addysg uwch gyda chyfle ar gyfer adolygiadau sy'n seiliedig ar y pwnc pan fo angen. Mae cywirdeb a digonolrwydd gwybodaeth yn ymwneud ag ansawdd a gyhoeddir gan y sefydliadau addysg uwch hefyd yn cael ei hadolygu. Mae QAA hefyd yn adolygu darpariaeth addysg uwch mewn colegau addysg bellach a ariennir yn gyhoeddus.

Systemau Credyd

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau addysg uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn perthyn i un ymhlith nifer o gonsortia credyd ac mae rhai yn gweithredu systemau casglu a throsglwyddo credyd lleol ar gyfer myfyrwyr sy'n symud rhwng rhaglenni a/neu sefydliadau. Lansiwyd fframwaith o ganllawiau cenedlaethol, y Fframwaith Credyd Addysg Uwch i Loegr, yn 2008. Mae credyd hefyd yn rhan annatod o'r FfCChC a'r QCF. Gall fod yn bosibl i ddarparwyr addysg sydd â chymwysterau sy'n rhan o un fframwaith gydnabod credyd a ddyfarnir mewn fframwaith gwahanol. Mae systemau credyd AU a ddefnyddir yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn gydnaws â'r System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd, a chânt eu defnyddio i gydnabod dysg y mae myfyrwyr wedi ei gael mewn sefydliadau mewn mannau eraill yn Ewrop.

Derbyn

Y cymhwyster mwyaf cyffredin ar gyfer cael mynediad at addysg uwch yw'r Dystysgrif Addysg Gyffredinol ar lefel 'Uwch' (A). Gall cymwysterau lefel 3 NQF a'r Diploma mynediad at AU, sydd â nod barcud, ddarparu mynediad at AU hefyd. Mae cymwysterau Lefel 3 yn y FfCChC, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru, hefyd yn darparu mynediad, fel y mae *Highers, Advanced Highers* neu gymwysterau ar yr un lefelau yn Fframwaith Credyd a Chymwysterau'r Alban. Gall myfyrwyr rhan-amser ac aeddfed gael mynediad at AU gyda'r cymwysterau hyn neu rai eraill sydd â thystiolaeth eu bod yn gyfwerth cyn dysgu ffurfiol a/neu drwy brofiad. Bydd sefydliadau yn derbyn myfyrwyr y maent yn credu sy'n meddu ar y potensial i gwblhau eu rhaglenni'n llwyddiannus.